Cynllun Rhodd o Gymorth
Cynyddwch eich cyfraniadau HEB GOST o gwbl i chi'ch hun

Cynllun yw Rhodd o Gymorth sydd, cyn belled â'ch bod yn talu treth, yn eich galluogi i roi swm o arian i elusen, yna gall yr elusen honno ad-hawlio'r raddfa dreth sylfaenol ar eich rhodd gan Gyllid y Wlad.

Mae hyn o gryn bwysigrwydd i'r Ymddiriedolaeth. Ers 6 Ebrill 2000 gellir trin unrhyw arian a roir i'r Ymddiriedolaeth un ai fel tâl aelodaeth neu gyfraniad yn unol â'r Cynllun Rhodd o Gymorth hwn a gall yr Ymddiriedolaeth ad-hawlio 28c am bob £1 a dderbyniwyd ganddi. Y cwbl sy'n rhaid i chi ei wneud yw cwblhau'r ffurflen isod; mae'n rhwydd iawn – nid oes angen cyfeirnodau treth, llenwi ffurflenni'n flynyddol nag ymrwymiad tymor hir.

Er enghraifft, os oes gennych aelodaeth teulu (£30 y flwyddyn) ac os byddwch yn cyfrannu £20 i'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn bydd eich cyfanswm yn £50. I'r Ymddiriedolaeth, byddai hyn yn golygu swm gros o £64.10 (hynny yw, £64.10 llai 22% graddfa dreth sylfaenol o £14.10, y gallai'r Ymddiriedolaeth ei ad-hawlio, gan adael £50 fel y swm a dalwyd gennych); byddai'r Ymddiriedolaeth yn elwa o 28% heb gost i chi o gwbl.

Cofiwch:

- Rhaid i chi dalu swm o incwm a/neu dreth ar enillion cyfalaf sydd o leiaf yn gyfartal â'r dreth y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ei ad-hawlio ar yr arian a roir gennych i'r Ymddiriedolaeth.
- Gallwch ddiddymu'r trefniant hwn ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r Ymddiriedolaeth ee os nad ydych mwyach yn talu treth.
- Os ydych yn talu treth ar y raddfa uwch gallwch ad-hawlio mwy o dreth yn eich ffurflen dreth Hunan-Asesiad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglyn â'r cynllun hwn yna cysylltwch â'r swyddfa ar 08458 11 22 33 yn ystod oriau swyddfa (9.00 am – 5.00 pm) **neu** ar e-bost post@enlli.org

---------- **Torrer Yma** ----------

Datganiad Rhodd o Gymorth

Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyfyngedig

Enw: ……

Cyfeiriad: ……

……

……Côd Post ……

Dymunaf i'r Ymddiriedolaeth drin pob tâl aelodaeth a chyfraniad a wneir gennyf o'r dyddiad hwn a hyd nes y byddaf yn eich hysbysu fel arall fel Cyfraniadau Rhodd o Gymorth.

Arwyddwyd: …… Dyddiad: ……

Dychweler at: Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyfyngedig, Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog, Pwllheli. Gwynedd, LL53 7TT.